# Grantiau datblygiad bwyd cymunedol 23-24

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r grantiau llwyddiannus o'r flwyddyn ddiweddar. Wnaeth y cynllun cefnogi amrywiaeth o brosiectau gwahanol, â phob un yn rhannu'r bwriad i roi cymorth i'w cymunedau trwy syniadau creadigol i wneud a bwyd. Darllenwch y crynodebau byr canlynol er mwyn deall yn well pa fath o brosiectau sy'n addas am y cynllun hwn.

## Barefoot Farming CIC




Mae Barefoot Farming CIC yn grŵp o 4 cyfarwyddwyr gwirfoddol sydd wedi dechrau fferm a chegin gymunedol yn Gwm, er mwyn helpu cymunedau difreintiedig, wella ansawdd bywyd lleol, cynyddi fynediad at adnoddau, a maethu lles cymunedol. Mae ganddyn nhw fwriadau i'w fod yn uchafbwynt lleol o gynaliadwyedd bwyd, tyfu bwyd, a dysgu – wrth gynnal gwersi coginio a thyfu ac ymgysylltu gyda'r ysgol a'r Hwb FlyingStart cyfagos. Wnaeth y grant cefnogi BFF i gwblhau'r ffensio angenrheidiol a chysylltu'r lleoliad â gwasanaethau a dŵr yn ogystal â phrynu adnoddau a chyfarpar er mwyn dechrau eu cyfleusterau tyfu.

## Pentref Tyleri CIC

CIC yng Nghalon Pentref Cwm Tyleri sydd wedi canoli o gwmpas rhannu sgiliau, adfywiad cymunedol, ac addysg bwyd; o dyfu hyd at bobi. Mae'r Hwb a chaffi cymunedol wedi defnyddio'r grant er mwyn pryni system compostio gyflym, ac maen nhw'n bwriadu dechrau cynllun compostio cymdogaeth ble gellir preswylwyr lleol cyfrvannu eu gwastraff bwyd er mwyn derbyn compost ffrwythlon yn ôl. Mae Pentref Tyleri yn gobeithio fod hyn yn ysbrydoli'r gymuned i ddechrau tyfu yn eu gerddi.



## Cegin Cymunedol Ebbw Fawr



Mae gan Ebbw Fawr cegin gymunedol sydd yn rhoi cymorth i rieni a gofalwyr. Yn ddiweddar, maen nhw wedi cynnal gwersi coginio a sesiynau maetheg trwy Fedline. Mae'r grant yma wedi helpu nhw i estyn y cymorth yma i gynnwys rhieni/gofalwyr a'u phlant er mwyn darparu sgiliau bywyd gwerthfawr am deuluoedd. Defnyddiwyd yr arian er mwyn pryni amrywiaeth o offer coginio a thyfu er mwyn caniatáu'r rhaglen i lwyddo.

## Cynllun Fit & Fed ALT

Mae ALT yn cynnal rhaglen Fit&Fed yn ystod y gwyliau ysgol er mwyn cefnogi teuluoedd, hyrwyddo actifedd corfforol, a sicrhau bod anghenion maetheg tu allan o'r amgylchedd ysgol. Trwy'r grant, derbyniodd y rhaglen arian ychwanegol y flwyddyn yma er mwyn estyn cymorth hyd at Garnllydan, Coed Cae, a Chefn Golau trwy gyfres o weithredai coginio hwyluswyd gan Cookstars. Wnaeth teuluoedd oedd yn cymryd rhan cael cyfle i ddysgu sut i'w pharatoi prydau iachus a maethlon ac wedi derbyn adnoddau a chynhwysion o ffynonellau lleol er mwyn cymryd adref.

